

CYFARFOD: Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

DYDDIAD: 8 Chwefror 2018

TEITL: Trosolwg Arbedion:
Adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion

PWRPAS: Adrodd ar y Sefyllfa Ddiweddaraf

GWEITHREDIAD: Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau cyffredinol sy'n deillio o'r llithriadau, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion.

SWYDDOG CYSWLLT: Dafydd L Edwards, Pennaeth Gyllid

AELOD CABINET: Cyngorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet dros Gyllid

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol lle'n briodol.
2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Trosolwg Arbedion: Adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion) i'r Cabinet ar 16 Ionawr 2018.
3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid a Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu, ynghyd â'r daflen penderfyniad perthnasol sydd ar y dudalen nesaf.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion, ystyried penderfyniadau'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

Atodiadau:

Taflen Penderfyniad Cabinet 16/01/2018

Trosolwg Arbedion: Adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion (Cabinet 16/01/2018)

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD**

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 16 Ionawr 2018

Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y
gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i **31 Ionawr 2018**
mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd

PWNC

Eitem 14: TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU
CYNLLUNIAU ARBEDION

PENDERFYNIAD

Nodwyd y cynnydd calonogol tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion 2015/16 – 2017/18

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn Strategaeth Ariannol y Cyngor, roedd y Cyngor wedi cynllunio £7,414,751 o arbedion yn y flwyddyn 2017/18. Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelod perthnasol o'r Cabinet, ond mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid yn cadw trosolwg ar y darlun cyfan er mwyn adnabod unrhyw broblemau gyda'r drefn, neu unrhyw adran penodol. Nodwyd lle bu "llithro" mewn 3 Adran, ond ar y cyfan bu cynnydd boddhaol yn 2017/18.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad
